# Polisi Ffilmio

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

27 Mawrth 2015

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch i chi am eich cais e-bost a ddaeth i law ar 18 Mawrth, lle rydych yn gwneud y cais canlynol am wybodaeth;

*....... a allech chi anfon eich polisi ynglŷ n â cheisiadau i ffilmio eiddo sy'n berchen i'r llywodraeth ....*

Dim ond dros ystâd y Cynulliad y mae gan Comisiwn y Cynulliad gyfrifoldeb, ac mae hyn yn cynnwys y Senedd. Mewn perthynas ag ystâd y Cynulliad, y polisi craidd drwy gydol y Trydydd a'r Pedwerydd Cynulliad fu na ddylai unrhyw weithrediadau'r cyfryngau, gan gynnwys ffilmio, ymyrryd â chynnal busnes priodol y Cynulliad. Mae eich cais, a'ch e-bost dilynol, yn ymwneud yn fwy eang â pholisi ar gyfer defnyddio eiddo sy'n berchen i'r llywodraeth fel lleoliadau ffilmio. Nid oes gennym unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r cais cyffredinol hwnnw; byddai angen i chi gysylltu â Llywodraeth Cymru neu'r adran berthnasol yn Whitehall er mwyn canfod a oes polisïau o'r fath ar gyfer eiddo sy'n berchen i'r llywodraeth.

Hefyd, er gwybodaeth, rwyf wedi darparu linc isod i ddatganiad ar y materion yr ydych wedi'u codi, a wnaed gan y Llywydd, y Fonesig Rosemary Butler.
http://www.assembly.wales/cy/newhome/Pages/newsitem.aspx?itemid=1422

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan: http://www.assembly.wales/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Buddug.Saer@Cynulliad.Cymru Buddug.Saer@Assembly.Wales

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn Cod Ymarfer ar Gwynion. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF